Estyn

# **Beth i'w ddisgwyl:** Gweithgarwch ymgysylltu mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau

O dymor yr hydref 2021, byddwn yn parhau â'n gweithgarwch ymgysylltu ac yn ymweld ag ysgolion ac UCDau, pan fydd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Byddwn hefyd yn parhau â'n cyfarfodydd ymgysylltu rhithiol â sampl fach o ysgolion ac UCDau, lle bo'n briodol. Bu'r adborth ar y gwaith hwn gan lawer o ysgolion ac UCDau yn gadarnhaol iawn. Mae arweinwyr a staff wedi croesawu'r cyfle i rannu eu profiadau â ni. Mae gwybodaeth o'r galwadau a'r ymweliadau hyn yn cyfrannu at ein hadroddiad blynyddol, cyngor i Lywodraeth Cymru a gwaith thematig yn y dyfodol.

Nid oes angen i unrhyw un baratoi ar gyfer ymweliad ymgysylltu neu gyfarfod rhithiol, ac ni fyddwn yn llunio unrhyw farnau am ddarparwyr unigol. Ni fydd unrhyw adroddiad ysgrifenedig ar gyfer ysgol neu UCD unigol. Byddwn yn cael trafodaethau proffesiynol ag arweinwyr yn ystod yr ymweliad am waith yr ysgol neu'r UCD. Ein nod yw i'r ymweliadau fod yn gefnogol ac yn brofiad dysgu cadarnhaol i'r ysgol/UCD a'n harolygwyr.

Yn ystod 2021-22, mae ein ffocws ar baratoadau ysgolion ac UCDau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn trafod sut mae arweinwyr a staff yn datblygu eu dulliau addysgu yn sgil y cwricwlwm. Hoffem drafod ymagweddau at ddiwygio ADY hefyd.

Byddwn yn cysylltu â'r ysgol neu'r UCD deng niwrnod cyn yr ymweliad i drafod y trefniadau â'r pennaeth. Efallai y byddwn yn cyfarfod ag aelodau staff eraill neu'n ymweld ag ystafelloedd dosbarth i siarad ag athrawon, cynorthwywyr dysgu a disgyblion i gael blas ar eu gwaith. Hoffem siarad â'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol am ymagweddau at ddiwygio ADY hefyd.

Rydym yn deall bod ysgolion ac UCDau yn parhau i wynebu heriau o ganlyniad i COVID-19, a bod cefnogi lles disgyblion staff yn flaenoriaeth allweddol i bawb o hyd.